

Gwyddor Ceffylau

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2010

Llwyddiant i Geffylau'r Brifysgol

Mae tri o geffylau'r Brifysgol wedi cael cryn lwyddiant yn y misoedd diwethaf:

Haeron Antonio – Yng nghystadlaethau dressage ganolig Lluest a gynhelir gan y Brifysgol, llwyddodd Hannah Titley i ddod ag Antonio i rowndiau terfynol Gŵyl Dressage Cymru ar 4 Mehefin. Daeth rhagor o lwyddiant i ran Antonio pan llwyddodd Paula Clarke i'w chymhwyso ar gyfer Para-Bencampwriaethau Dressage Cenedlaethol Hickstead y diwrnod wedyn. Rhaid, felly, oedd dewis rhwng y cystadlaethau, a phenderfynwyd mynd â'r ceffyl i Hickstead. Roedd hwn yn ddewis da gan i Antonio fynd ymlaen i ddod yn ail ym mhara-gystadlaethau gymhwysol y KBIS. Gobeithiwn y bydd hynny'n ddigon da i sicrhau y bydd yn cael cystadlu ym Mhara-Bencampwriaethau Dressage Prydain yn Stoneleigh ym mis Medi - llongyfarchiadau i Paula ac Antonio, a gobeithio'n wir y cant fynd i Stoneleigh. Mae Paula hefyd wedi cael gwahoddiad i farchogaeth ym Mhencampwriaethau Rhyngwladol Hartpury yng Ngorffennaf lle bydd yn cynrychioli Prydain Fawr.



Paula Clarke yn marchogaeth Antonio ym Mhara-Bencampwriaethau Dressage Cenedlaethol Hickstead lle daeth yn ail

Cwmbanal Hope – dyma'r fargen a gafodd y Brifysgol pan brynodd gasg teirblwydd mewn arwerthiant lleol. Ers hynny, mae Hope wedi dod yn ei blaen dan law myfyrwyr a staff y Brifysgol, ac y mae bellach wedi ei chymhwyso gan Hannah Titley ar gyfer adran rhagbrawf Gŵyl Dressage Cymru. Dyma ei chystadlaethau gyntaf oddi cartref a chafodd 65% yn y ddau brawf – da iawn Hannah a Hope!



Hannah Titley yn marchogaeth Cwmbanal Hope mewn paratoad ar gyfer Gŵyl Dressage Cymru

Lluest Foxy's Affair – mae'r gasg hon, a fridiwyd yn y Brifysgol ac a genhedlwyd gan un o'n cesyg, Foxridge Foxy Lady a'r march Lostock King of the Hill, yn awr yn ddwy flyydd oed ac wedi cystadlu yn ei sioe gyntaf ym Mae Ceredigion ym mis Mai. Dyma'r tro cyntaf iddi adael Lluest, ac roedd yn gasg ddelfrydol - teithiai'n dda a llwyddodd i ddod yn ail mewn dosbarth o naw o geffylau lliw. Bydd yn ymddangos nesaf yn Sioe Cefn Gwlad Aberystwyth, lle bydd yn cael ei dangos gan Shelley Buffery - dymunwn yn dda iddynt ac rydym yn ffyddiog y bydd Foxy's Affair yn gwneud yn dda yn y dyfodol.



Lluest Foxy's Affair yn ei sioe gyntaf lle daeth yn ail mewn dosbarth o naw.

IBERS

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

Rhestr Cysiau

MSc

Gwyddor Ceffylau (D391)

Diploma Uwchraddedig

Gwyddor Ceffylau

Tystysgrif Uwchraddedig

Maetheg Ceffylau

Bridio Ceffylau a Rheoli Bridfeydd

BSc Anrhydedd

Gwyddor Ceffylau (D322)

Gwyddor Chwaraeon a Ceffylau (CD64)

Astudiaethau Ceffylau (D325) (1-flwyddyn ychwanegol)

Gradd Sylfaen

Astudiaethau Ceffylau (D324)

Diploma Genedlaethol Uwch

Astudiaethau Ceffylau a Busnes (1HND)

Astudiaethau Ceffylau (423D)

Cyswllt

Carol Green:

Mina Davies Morel

Tony O'Regan:

(01970) 624471

cgg@aber.ac.uk

mid@aber.ac.uk

tor@aber.ac.uk

Newydd-ddyfodiad yn Uned Geffylau Lluest

Croeso mawr i Lluest Solo Venture a aned yn yr Uned Geffylau ddydd lau, 27 Mai, am 3.30 y prynhawn, yng ngŵydd llawer a ddaethai ynghyd i weld yr enedigaeth. Mae gweld ebol iach yn cael ei eni yn gwneud iawn am yr holl nosweithiau di-gwsg a gafwyd yn aros amdano!!! Mae mam Solo, sef Amber Alert, wedi ei chofrestru yn y Llyfr Gre Cyffredinol a chafodd ei thadogi gan farch Oldenburg, sef Abraham; tad Solo yw'r Cob Cymreig Adran D cofrestredig, sef Sea Adventure. Mae Amber wedi dychwelyd at Sea Adventure yn y gobaith y bydd yn cael ebol gwych arall y flwyddyn nesaf.



Lluest Solo Venture – newydd-ddyfodiad diweddaraf Lluest!!

Newyddion Uned Geffylau Lluest

Cystadlaethau:

Mae'r Ganolfan Geffylau, fel erioed, wedi bod yn brysur gyda chyfres o gystadlaethau *dressage* cyswllt, a sioeau neidio ceffylau digysylltiad. Cafodd y cystadlaethau hyn eu rhedeg gan y tîm Rheoli Digwyddiadau, sy'n fyfyrwyr FDSc a HND ail flwyddyn sydd wedi dewis y modiwl Rheoli Digwyddiadau. Mae'r sioeau hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gael profiad gwerthfawr o reoli digwyddiadau tra o dan oruchwyliaeth Dr Carol Green (Rheolwraig y Ganolfan Geffylau) a Hannah Titley (Hyfforddwraig Ymarferol).

Cynhaliwyd dwy baragystadleuaeth ceffylau a'r Camp Cymreig yng Nghanolfan Geffylau Lluest gan ddenu marchogion o bob cwr o'r Deyrnas Unedig gan gynnwys y marchogion rhyngwladol, Natalie Povey a Ricky Balshaw (enillydd y fedal aur ym Mhencampwriaethau Ewrop 2009), yn ogystal â'n Paula Clarke ni, sy'n cynrychioli'r DU ac yn marchogaeth Haeron Antonio.



Paula Clarke yn marchogaeth Antonio yng nghamp Dressage Prydain a gynhaliwyd yn Lluest rhwng 14 ac 16 Ebrill, lle cafodd dlws am fod yn bara-farchog gorau Cymru.

Clinigwyr ar Ymweliad

Cynhaliodd Mrs. Jane Goldsmith, beirniaid FBHS a Dressage Rhyngwladol, sesiynau hyfforddi bob deufis ar gyfer marchogion abl a phara-farchogion, gan roi cyfle gwyb i fyfyrwyr a staff gael hyfforddiant gwerthfawr o dan ei llygaid gwyliadwrs. Hefyd, cynhaliodd Jane weithdy ar farchogaeth yn well mewn profion ac edrych ar waith ceffylau drwy lygaid y beirniad. Mae Jane yn ymweld â'r Uned yn weddol reolaidd, a bydd yn dod atom nesaf ar 16 Awst.

Ilwyddiant myfyrwyr mewn arholiadau

Yn diweddar, llwyddodd deg o fyfyrwr FDSc a HND mewn Astudiaethau Ceffylau i ennill eu tystysgrifau BHS mewn Marchogaeth a Diogelwch Ffordd (cyfradd llwyddiant o 100%), a llwyddodd 18 o fyfyrwyr FDSc a HND i basio'u harholiad BHS Cam 1 – da iawn bawb!

Cyhoeddiadau Gwyddor Ceffylau

Mae'r canlynol yn rhoi blas o'r math o bapurau y mae staff (wedi eu haroleuo mewn du), ynghyd â myfyrwyr (mewn coch), wedi eu cynhyrchu yn y 6 mis diwethaf:

Canisso IF, Carvalho GR, **Morel MC**, Guimarães JD a McDonnell SM. (2010) Sexual behaviour and ejaculate characteristics in Pêga donkeys (*Equus asinus*) mounting estrous horse mares (*Equus caballus*). *Theriogenology* 73(1):56-63.

Sharma S, **Davies Morel M**, Dhaliwal G, Dadarwal D. 2010 The pattern of embryonic fixation and its relationship to pregnancy loss in Thoroughbred mares. *Reprod Domest Anim.* [E-gyhoeddiad ar gael cyn yr un printiedig]

Sharma, S. **Davies Morel, MCG.** a Dhaliwal, GS. (2010) Factors affecting the incidence of postpartum oestrus, ovarian activity and reproductive performance in Thoroughbred mares bred at foal heat under Indian subtropical conditions. *Theriogenology* 74, 90-99.

Davies Morel MC, Newcombe JR a **Hinchliffe J.** (2009) The relationship between consecutive pregnancies in Thoroughbred mares. Does the location of one pregnancy affect the location of the next, is this affected by mare age and foal heat to conception interval or related to pregnancy success. *Theriogenology* 15;71(7):1072-8

Egan, C.E., Snelling, T.J. and **McEwan, N.R.** (2010) The Onset of Ciliate Populations in Newborn Foals. *Acta Protozool.* (2010) 49: 145–147

Billington, H.E. a **McEwan, N.R.** (2009) The relationship between parental coat colour and prize-winning palominos. *Journal of Equine Science* 20, 4, 73-77

Nash DM, Sheldon IM, Herath S a Lane EA (2010) Markers of the uterine innate immune response of the mare. *Animal Reproduction Science.* 119: 31-39



Casglu merlod Cymreig y Carneddau ynghyd ar yr Wyddfa er mwyn i Clare fedru gwneud gwaith sampl ar gyfer ei PhD

Prosiect PhD newydd i Clare Alison

Croeso mawr i Clare sydd newydd ddechrau ei gradd PhD gyda ni. Nid yw Clare yn ddieithr i ni yma yn Aberystwyth, oherwydd cwblhaodd raddau BSc a MSC mewn Gwyddor Ceffylau gyda ni. Ar gyfer ei thraethawd hir MSC, bu'n gweithio ar Firws Herpes mewn Ceffylau yn Ysgol Filfeddygaeth Nottingham gyda Dr Julia Kydd (sydd hefyd wedi ennill gradd MSC mewn Gwyddor Ceffylau yn Aber), ac fe hoffodd y gwaith cymaint nes iddi benderfynu mynd yn ei blaen i wneud gradd PhD. Mae Clare wedi gwneud yn dda iawn a dyfarnwyd iddi un o ysgoloriaethau PhD y Sefydliad i astudio yn labordy genomeg y Brifysgol er mwyn dadansoddi'r perthnasoedd genynnol rhwng bridiau merlod cynhenid y DU gan ddefnyddio technegau genynnol moleciwlaidd - Pob lwc gyda'r fath bwnc diddorol Clare!

Clwb Marchogaeth y Brifysgol

Daeth rhagor o lwyddiant i ran Timau Marchogaeth Aberystwyth eleni. Cystadlodd tîm A (Ellen Brower, Claire Law, Ayesha Banks a Rachel Williams) yn erbyn eu cystadlewyr blynyddol, sef Prifysgolion Caerdydd, Abertawe a Swydd Gaerloyw, a hynny yn Aberystwyth, gan ennill o 21 o bwyntiau cosb, gydag Ellen Brower yn cael cyntaf fel unigolyn - dechreuad anhygoel! Nid aeth pethau cystal yn y ddwy gystadleuaeth nesaf, ond yn y gystadleuaeth olaf yn Abertawe, daeth tîm Aberystwyth yn eu hôl, gan ennill o 12 pwynt cosb - diolch i lwyddiant Angharad (wrth gefn) a Claire yn y rowndiau neidio ceffylau. Er gwaethaf hyn, methodd y tîm â chymhwyso ar gyfer y rowndiau rhanbarthol, er i Ellen fod yn llwyddiannus a chymhwyso i fynd yn ei blaen fel unigolyn i Ganolfan Marchogaeth Avon ym Mryste ar 31 Mawrth 2010. Daeth Ellen yn ail yn y gystadleuaeth hon gan gymhwyso'i hun ar gyfer y rowndiau Cenedlaethol – da iawn ti!



Tim A a'u hyfforddwraig, Shelley. O'r chwith i'r dde: Rachel Williams, Ayesha Banks, Angharad James, Lina Brazauskaite, Shelley Buffery

Cafodd tîm B (Alex Thomas, Tom Cowburn, Helen Parish a Caroline Duffin) dymor a oedd hyn yn oed yn well, gan dechrau drwy ddod yn ail yn erbyn Prifysgolion Harper-Adams, Keele a Birmingham. Parhaodd y llwyddiant ym Mirmingham a Keele lle cipiodd Aber y wobwr gyntaf yn y ddwy gystadleuaeth. Unwaith eto, y perfformiad gwyb yn y gystadleuaeth neidio ceffylau fu'n allweddol o ran y llwyddiant. Bu Tom yn arbennig o llwyddiannus yn Keele lle'r enillodd y wobwr gyntaf fel unigolyn. Sicraodd y llwyddiant hwn le yn y rowndiau rhanbarthol yng Ngholeg Brooksby yng Nghaerlŷr ar 7 Ebrill 2010, lle daeth y tîm yn 2il ac Alex yn 4ydd fel unigolyn - perfformiad gwyb ond heb fod yn ddigon da i gymhwyso ar gyfer y rowndiau cenedlaethol. Da iawn bawb!



Tim B ar ôl diwrnod tra llwyddiannus yng Nghystadleuaeth Keele. O'r chwith i'r dde: Alex Thomas, Caroline Duffin, Helen Parish, Tom Cowburn

Mae'r timau marchogaeth yn cael cefnogaeth dda iawn gan yr Uned Geffylau, a chan Dr Carol Green, Shelley Buffery (hyfforddwraig ymarferol) a'r holl geffylau yn enwedig!!!

Taith Gwyddor Ceffylau

Roedd y daith yn llwyddiant ysgubol eto eleni. Aethpwyd i leoliad newydd yng Ngogledd Cymru, sef Tanrallt, Llangian, Pwllheli, Gwynedd lle bu'r myfyrwyr yn aros mewn tŷ bynciau mewn lle perffaith ar gyfer barbiciw!!! Treuliodd amser ym Mridfa Lustiano Pen Llŷn lle cynhaliwyd darlithoedd ac arddangosiadau ar frid Lustiano, dressage a rheolaeth bridfa. Yr uchafbwynt oedd cael cyfle i farchogaeth y ceffylau hardd hyn. Hefyd, ymwelodd y myfyrwyr â chanolfan ffrwythloni artiffisial Twemlows Hall (lle gwelsant semen yn cael ei gasglu a'i asesu), y 'Taylored Equestrian Rehabilitation Therapy Centre' (sef gwesty 5* rhagorol ar gyfer ailhyfforddi ceffylau), a Chanolfan Geffylau Prescott (i gael darlithoedd ar y peryglon sydd ynghlwm wrth sefydlu busnes).